GRIFFITH, ROBERT ARTHUR ('Elphin '; 1860 - 1936), awdur a chyfreithiwr

Enw: Robert Arthur Griffith
Ffugenw: Elphin
Dyddiad geni: 1860
Dyddiad marw: 1936
Rhiant: Ann Griffith (née Roberts)
Rhiant: John Owen Griffith
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: awdur a chyfreithiwr
Maes gweithgaredd: Cyfraith; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Griffith Milwyn Griffiths

Ganwyd yng Nghaernarfon, 1860, i John Owen Griffith ('Ioan Arfon') ac Ann (gynt Roberts). Addysgwyd ef yn Lerpwl a Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Bu'n gyfreithiwr ym Mangor am rai blynyddoedd. Daeth yn fargyfreithiwr yn 1903, a bu'n gysylltiedig â chylch cyfreithiol Gogledd Cymru a Chaer. Yn 1915 penodwyd ef yn ynad cyflog ym Merthyr Tydfil ac Aberdâr, swydd a ddaliodd hyd ei ymddiswyddiad yn 1935.

Ar yr ochr lenyddol yr oedd yn eisteddfodwr brwd, a chymerodd yr enw barddol ' Elphin.' Ysgrifennodd ddwy gyfrol o farddoniaeth Gymraeg, *Murmuron Menai* ac *O Fôr i Fynydd*, a chomedi Gymraeg, *Y Bardd a'r Cerddor*; yr oedd hefyd yn gyd-awdur cyfrol Saesneg, *The Welsh Pulpit*. Bu'n cyfrannu hefyd fel beirniad llenyddol a dychanwr i gylchgronau fel *Y Geninen*. Bu farw yng Nghaerdydd, 26 Rhagfyr 1936, a chladdwyd ef yn Llandudno, 31 Rhagfyr.

Awdur

Griffith Milwyn Griffiths

Ffynonellau

Western Mail

Aberdare Leader

Y Faner

Who's who in Wales, 1920

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Robert Arthur Griffith

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 44072314

Wikidata: Q18535641

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu